



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Asesiad HMI Wendy Williams o Heddlu Gogledd Cymru – Trawsgrifiad

Rwyf yn fodlon ar berfformiad cyffredinol Heddlu Gogledd Cymru eleni. Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle mae angen i'r llu wella.

Mae'n dda o ran atal troseddu a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac rwyf yn fodlon ar y gwelliannau mae'r llu wedi'u gwneud i'w ymchwiliadau troseddu ers fy asesiad llynedd.

Hefyd, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd o ran sut mae'n amddiffyn y rhai mwyaf hyglwyf. Mae gan y llu ddealltwriaeth dda o natur a graddfa hyglwyfder yng Ngogledd Cymru, a bydd y llu eisiau adeiladu ar y cyflawniad hwn trwy sicrhau bod swyddogion yn gweld pob cyfle i gadw pobl hyglwyf yn ddiogel wrth ymateb i alwadau am wasanaeth. Rwyf yn fodlon ar ymagwedd y llu tuag at fynd i'r afael â [throseddau difrifol a threfnedig](#), yn arbennig ei fentrau effeithiol i rwystro pobl rhag ymgysylltu â throseddoldeb trefnedig.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddealltwriaeth dda o'r galwadau cyfredol a rhai'r dyfodol am ei wasanaethau. Rwyf wedi cael sicrwydd bod cynlluniau ariannol y llu wedi'u seilio ar ragdybiaethau cadarn sy'n cynnwys [arbedion effeithlonrwydd](#) gwell, costau llai a defnydd pwylllog o gronfeydd ariannol. Rwyf yn siomedig bod y llu'n dal i fod yn araf ynghylch buddsoddi mewn technoleg newydd. Rwyf yn falch bod gan y llu gynlluniau erbyn hyn i unioni'r sefyllfa hon, a fydd yn cyflwyno buddion ynghylch effeithlonrwydd i'r llu.

Mae'r llu wedi trafod bylchau o ran capasiti a galluogrwydd rhai meysydd arbenigol. Fodd bynnag, gallai gallu'r llu i gydweddu ei adnoddau â'r galw gael ei rwystro gan ei ddealltwriaeth anghyflawn o sgiliau a gwybodaeth gyfredol ei weithlu. Dylai'r llu barhau i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon fel mater o frys.

Mae'r llu'n ceisio adborth gan bobl Gogledd Cymru ac mae'n gallu nodi'r problemau sy'n cael yr effaith fwyaf ar eu canfyddiadau o driniaeth deg a pharchus. Mae gan y llu ddealltwriaeth gyfyng o risgiau megis camymddygiad a llygredd posibl, ac mae ganddo hefyd gapasiti annigonol i nodi a delio â'r risgiau hyn.

Mae'r llu'n ymwybodol o bwysigrwydd a gwerth hyrwyddo lles o fewn y gweithlu ac mae'n gweithio i drefnu bod gwasanaethau cymorth ar gael yn gyffredinol i swyddogion a staff.

Yn y flwyddyn o'n blaen, bydd gen i ddiddordeb i weld sut y bydd y llu'n ymateb i'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan HMIC.